



Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

**Trefniadau arfaethedig i ddarparu rhyddhad trosiannol i gefnogi
busnesau bach a fydd yn cael eu heffeithio mewn ffordd anffafriol
gan ailbrizio ardrethi annomestig yn 2017**

Dyddiad cyhoeddi: 30 Medi 2016

Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 4 Tachwedd 2016

Trosolwg Mae'r ymgynghoriad hwn yn edrych ar ryddhad trosiannol ar gyfer busnesau bach yr effeithir arnynt gan ailbriso ardrethi annomestig yn 2017. Rydym am eich barn a'ch sylwadau ar y trefniadau ymarferol ar gyfer cymhwyso'r cynllun rhyddhad trosiannol arfaethedig i gefnogi eiddo y bydd cynnydd yn eu gwerth ardrethol o ganlyniad i ailbriso ardrethi annomestig yn 2017 yn cael effaith ar eu cymhwysedd ar gyfer Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach (SBRR).

Sut i ymateb Gellir anfon ymatebion drwy e-bost neu'n uniongyrchol i:

Polisi Cyllid Llywodraeth Leol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
e-bost: LGF1Consultations@wales.gsi.gov.uk

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig Mae fersiynau o'r ddogfen hon ar gael mewn print bras, mewn Braille ac mewn ieithoedd eraill.

Manylion cyswllt I gael rhagor o wybodaeth, neu os oes gennych ymholiadau yn gysylltiedig â'r ymgynghoriad hwn, anfonwch e-bost i:

LGF1Consultations@wales.gsi.gov.uk
Polisi Cyllid Llywodraeth Leol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Diogelu data Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni.

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu cyhoeddi crynodeb

o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb.

Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni'n ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio eich manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu inni gadw gwybodaeth yn ôl o dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig inni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn inni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

Ailbrisió Ardrethi Annomestig yn 2017 – Ymgynghori ar y Trefniadau Trosiannol Arfaethedig

Rhagarweiniad

Bydd yr ailbrisió ardrethi annomestig nesaf yn dod i effaith ar 1 Ebrill 2017. Diben yr ailbrisió yw bod yn deg drwy sicrhau bod gwerthoedd ardrethol yn seiliedig ar werthoedd rhenti diweddar. Nid oes unrhyw refeniw ychwanegol yn cael ei godi drwy ailbrisió felly bydd rhai biliau'n codi ac eraill yn cael eu torri, gan ddibynnu ar newidiadau cymharol mewn gwerthoedd.

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig cyflwyno trefniadau pontio i helpu busnesau bach y bydd yr ailbrisió yn cael effaith anffafriol ar eu cymhwysedd ar gyfer Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach.

Mae'r papur ymgynghori hwn yn ystyried sut y dylid rhoi'r trefniadau pontio hyn ar waith.

Cefndir

Mae ardrethi annomestig, sy'n cael eu galw'n aml yn drethi busnes, yn cael eu talu gan feddianwyr, tenantiaid neu berchnogion y rhan fwyaf o eiddo annomestig. Awdurdodau lleol sy'n gweinyddu'r system, rhoi biliau a chasglu taliadau.

Mae'r dreth hon wedi'i datganoli i raddau helaeth i Lywodraeth Cymru ac mae'r holl refeniw a gesglir yn cael ei ddsbarthu i awdurdodau lleol a chomisiynwyr heddlu a throseddau i ddarparu cyllid ar gyfer gwasanaethau lleol.

Mae gwerthoedd ardrethol yn cael eu pennu'n annibynnol gan Asiantaeth y Swyddfa Brisió ac maent yn seiliedig yn bennaf ar y rhent y byddai eiddo'n ei hawlio ar y farchnad agored ar adeg benodol. Yn unol â darpariaethau Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, Llywodraeth Cymru sy'n pennu'r lluosydd yn flynyddol.

Mae bil ardrethi yn cael ei gyfrifo fel arfer drwy luosi gwerth ardrethol yr eiddo â'r lluosydd, gan dynnu unrhyw ryddhadau y mae'r eiddo neu'r perchennog neu'r trethdalwr yn gymwys i'w cael, er enghraifft Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach neu ryddhad elusennol.

Ailbrisió

Er mwyn sicrhau bod biliau'n adlewyrchu'r sefyllfa ddiweddaraf, mae gwerthoedd ardrethol eiddo yn cael eu hailasesu yn rheolaidd gan Asiantaeth y Swyddfa Brisió fel rhan o broses ailbrisió. Cafodd yr ymarfer ailbrisió diwethaf ei gynnal yn 2010 a bydd yr ailbrisió nesaf yn dod i effaith o 1 Ebrill 2017 ymlaen, yn seiliedig ar werthoedd rhenti ar y pwynt sefydlog o 1 Ebrill 2015. Mae defnyddio'r un pwynt sefydlog ar gyfer pawb yn sicrhau tegwch.

Nid yw cyfanswm y refeniw a gesglir fel ardrethi yn newid, mewn termau real, oherwydd yr ailbrisió hyn. Yn hytrach, diben yr ailbrisió yw ailddosbarthu'r

atebolrwydd i dalu ardrethi gan ystyried y gwerthoedd newydd. I wireddu'r nod hwn, mae'r lluosydd yn cael ei roi ar sylfaen newydd ar gyfer blwyddyn gyntaf y rhestr ardrethi newydd i gyfrif am unrhyw newidiadau cyffredinol i gyfanswm y gwerth ardrethol.

Er nad oes unrhyw refeniw ychwanegol yn cael ei godi yn sgil yr ailbrisió ei hun, wrth i'r galw am rai lleoliadau neu fathau o eiddo gynyddu, mae eu gwerthoedd rhenti yn codi gan fod busnesau yn talu mwy i gael eu lleoli yn yr ardaloedd hyn. Ar y llaw arall, bydd y galw yn syrthio mewn ardaloedd eraill, a'r gwerthoedd rhenti yn syrthio, o'u cymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol. O ganlyniad, gall biliau ardrethi unigol godi, gostwng neu aros ar yr un lefel bob tro y bydd ymarfer ailbrisió yn cael ei gynnal.

Rhyddhad Trosiannol

Mae rhyddhad trosiannol wedi cael ei ddarparu cyn hyn i gynorthwyo trethdalwyr sy'n wynebu newid mawr yn eu hatebolrwydd drwy gyflwyno newidiadau yn raddol dros gyfnod o flynyddoedd, gan roi cap o ganran penodol ar unrhyw gynnydd sylweddol yn yr ardrethi y maent yn atebol i'w talu.

Cafodd y rhyddhad trosiannol mwyaf diweddar ei ddarparu ar gyfer y cyfnod yn dechrau ar 1 Ebrill 2000, a dim ond ar gyfer eiddo gyda gwerth ardrethol o dan drothwy penodol lle'r oedd y swm trethadwy wedi cynyddu o fwy na chanran penodol y'i cynigiwyd. Cafodd y rhyddhad hwn ei gyllido'n gyfan gwbl gan drethdalwyr, nid gan gymhorthdal Llywodraeth Cymru, a oedd yn golygu bod pob punt o gap ar gyfer un trethdalwr yn cael ei hariannu gan drethdalwr arall a fyddai wedi gweld ei fil yn gostwng fel arall.

Mae'r papur ymgynghori hwn yn ystyried opsiwn i roi trefniadau ar waith i gyflwyno'n raddol y newidiadau i filiau ardrethi unigol a fydd yn deillio o'r ymarfer ailbrisió yn 2017. Byddai hyn yn rhyw fath o ryddhad trosiannol a byddai costau'r cynllun yn cael eu hariannu'n gyfan gwbl gan Lywodraeth Cymru.

Mae rhagor o wybodaeth am y cynllun Rhyddhad Trosiannol arfaethedig i'w cael isod:

Rhyddhad trosiannol ar gyfer trethdalwyr y bydd yr ailbrisió yn cael effaith ar eu cymhwysedd ar gyfer Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach (SBRR)

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod busnesau bach yn gallu wynebu cyfradd uwch o orbenion na busnesau mawr oherwydd ardrethi annomestig. Yn ogystal â hyn, gall fod yn anoddach i fusnesau bach ymdopi â chynnydd sydyn, mawr yn eu biliau ardrethi.

O ganlyniad i'r cymorth a ddarperir gan y Cynllun Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach, bydd tua hanner y trethdalwyr yn dal i dalu dim yn dilyn yr ymarfer ailbrisió yn 2017, a bydd 20,000 o drethdalwyr eraill yn gymwys am ryddhad graddol.

Fodd bynnag, bydd yna rai busnesau bach y bydd y cynnydd yn eu gwerthoedd ardrethol, yn dilyn yr ymarfer ailbriso, yn cael effaith negyddol ar eu cymhwysedd ar gyfer Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach. Gallai'r trethdalwyr hyn wynebu cynnydd mawr yn eu hatebolrwydd yn sgil yr ailbriso, a bydd gostyngiad yn y rhyddhad y gallant ei hawlio yn cymhlethu hyn ymhellach. Mae hyn yn arbennig o wir yn achos y trethdalwyr hynny a oedd yn gymwys am ryddhad o 100% cyn yr ailbriso, ac nad oeddynt yn talu unrhyw ardrethi, ond na fydd yn gymwys am Ryddhad Ardrethi Busnesau Bach yn dilyn yr ailbriso.

O ganlyniad, cynigir y dylid cyflwyno cynllun rhyddhad ardrethi trosiannol i helpu trethdalwyr sy'n derbyn Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach ar 31 Mawrth 2017 a fyddai'n gweld gostyngiad yng nghanran y Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach y mae ganddynt hawl iddo ar 1 Ebrill 2017, oherwydd bod eu gwerthoedd ardrethol wedi cynyddu yn dilyn yr ailbriso.

Bydd Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach yn cael ei gymhwyso cyn rhyddhad trosiannol (TR). Bydd y rhyddhad trosiannol yn gweithio drwy gyflwyno unrhyw gynnydd mewn atebolrwydd dros gyfnod o dair blynedd (25% o gynnydd mewn atebolrwydd ym mlwyddyn un, 50% ym mlwyddyn dau a 75% ym mlwyddyn tri) fel bod trethdalwyr yn talu eu biliau'n llawn erbyn dechrau'r bedwaredd flwyddyn.

Mae yna dri phrif grŵp o drethdalwyr a fyddai'n cael eu targedu gan gymorth o'r fath.

- Trethdalwyr yn symud o SBRR llawn i SBRR rhannol
- Trethdalwyr yn symud o SBRR llawn i ddim SBRR
- Trethdalwyr yn symud o SBRR rhannol i ddim SBRR.

Bydd effaith ariannol gostyngiad mewn cymorth Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach (SBRR) o ganlyniad i'r ailbriso yn dibynnu ar werth ardrethol yr eiddo. Mae'r tabl isod yn dangos enghraifft o'r effaith y gellid ei chael ar bob un o'r tri grŵp uchod ym mlwyddyn un:

Gwerth Ardrethol 2010	Cymhwysedd ar gyfer SBRR	2016 Atebolrwydd	Gwerth Ardrethol 2017	Cymhwysedd ar gyfer SBRR	Atebolrwydd Cyn TR*	Atebolrwydd Yn Dilyn TR*	Budd Ariannol
£6,000	100%	£0	£9,000	50%	£2,187	£547	£1,640
£6,000	100%	£0	£12,000	0%	£5,832	£1,458	£4,374
£8,000	66%	£1,296	£14,000	0%	£6,804	£2,673	£4,131

* Mae'r cyfrifiadau yn defnyddio lluosydd 2016-17, sef 0.486, at ddibenion enghreifftiol

Mae enghraifft o sut bydd rhyddhad trosiannol yn cael ei gyfrifo ac yn lleihau atebolrwydd trethdalwr wedi'i darparu fel atodiad i'r papur ymgynghori hwn.

Manteision ac Anfanteision

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod rhai manteision o ddarparu'r math hwn o ryddhad trosiannol:

- Mae'n darparu rhyddhad wedi'i dargedu i'r trethdalwyr hynny sydd, mewn termau cymharol, yn cael eu heffeithio fwyaf gan yr ailbriso, yn enwedig

i'r rheini a fyddai fel arall yn symud o gael Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach llawn i gael dim cymorth. Mae hyn yn gyson â'r bwriad i gyflwyno cynllun Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach parhaol, wedi'i dargedu'n well, o 2018 ymlaen.

- Mae'r cynllun rhyddhad yn rhoi tair blynedd i fusnesau bach cymwys gynllunio ar gyfer eu hatebolrwydd uwch, ac i addasu, gan sicrhau hefyd fod pob trethdalwr yn talu ei filiau'n llawn ar ddechrau'r bedwaredd flwyddyn cyn i waith ddechrau ar baratoi ar gyfer yr ymarfer ailbriso nesaf.
- Bydd y rhyddhad yn cael ei ariannu'n llawn gan Lywodraeth Cymru yn hytrach na chael ei ariannu drwy gyfyngu ar ostyngiadau mewn atebolrwydd i drethdalwyr y mae eu gwerth ardrethol wedi gostwng o ganlyniad i'r ailbriso. Mae hyn yn golygu y bydd y trethdalwyr hynny y mae eu gwerthoedd ardrethol wedi syrthio yn elwa yn sgil yr ailbriso yn syth yn hytrach na gorfod aros am flynyddoedd cyn elwa. Mae Llywodraeth Cymru yn credu bod hyn yn arbennig o bwysig gan fod y ffaith i ymarfer ailbriso 2015 gael ei ohirio yn golygu bod trethdalwyr wedi bod yn talu eu hardrethi yn seiliedig ar werthoedd 2008 am saith mlynedd.
- Mae darparu cynllun rhyddhad wedi'i dargedu sy'n cael ei ariannu'n llawn yn golygu bod newidiadau mewn atebolrwydd yn fwy tryloyw ac yn haws i drethdalwyr eu deall na chynllun sydd hefyd yn rhoi cap ar ostyngiadau mewn atebolrwydd.
- Mae darparu cynllun rhyddhad trosiannol mewn rheoliadau yn caniatáu i'r rhyddhad gael ei gymhwysu'n uniongyrchol i filiau trethdalwyr gan sicrhau bod y rheini sy'n gymwys yn elwa, ac mae'n symleiddio'r broses weinyddu ar gyfer awdurdodau lleol.

Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod rhai anfanteision hefyd yn gysylltiedig â'r math hwn o gynllun:

- Mae'r cynllun yn dal i fod yn gymharol gymhleth a bydd angen i awdurdodau lleol ei weinyddu a bydd yn galw hefyd am newid i ddeddfwriaeth a meddalwedd cyn ei weithredu.
- Gan fod y cynllun wedi'i dargedu at grŵp penodol o drethdalwyr, dim ond cyfran gymharol fach o drethdalwyr fydd yn gallu elwa arno.
- Ni fydd trethdalwyr mwy o faint a fydd yn gweld cynnydd yn eu gwerthoedd ardrethol yn dilyn yr ymarfer ailbriso yn gymwys am unrhyw gymorth wrth gyflwyno'r cynnydd yn eu hatebolrwydd, er mae'n bosibl i byddant yn gymwys am fathau eraill o ryddhad fel rhyddhad elusennol.
- Gan mai Llywodraeth Cymru fydd yn ariannu'r cynllun, bydd yna gostau cyfle.

Cwestiynau ymgynghori

Mae gan Lywodraeth Cymru ddiddordeb yn eich sylwadau ynghylch y cynllun rhyddhad trosiannol arfaethedig, yn arbennig mewn perthynas â'r agweddau technegol ar gynnal cynllun o'r fath, y goblygiadau gweinyddol ac unrhyw brosesau neu weithdrefnau y dylid eu hystyried.

Rydym hefyd yn gwahodd sylwadau ynghylch yr effaith (boed hynny'n gadarnhaol neu anffafriol) y byddai'r diwygiadau yn eu cael ar drethdalwyr a fyddai naill ai'n cael eu heffeithio gan y rhyddhad hwn, neu'n cael eu heithrio.

Yn olaf, gwahoddir sylwadau ynghylch yr effaith (boed hynny'n gadarnhaol neu'n anffafriol) y byddai cyflwyno rhyddhad o'r fath yn ei chael ar gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Yn ogystal â hynny, rydym yn gwahodd barn a ellid llunio'r cynnig neu ei adolygu i gael effaith gadarnhaol, neu lai o effaith niweidiol, ar y cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Y Camau Nesaf

Wedi i'r ymgynghoriad ddod i ben, bydd yr ymatebion yn cael eu dadansoddi a bydd rheoliadau'n cael eu drafftio er mwyn iddynt ddod i rym erbyn 1 Ionawr 2017 i ganiatáu digon o amser i awdurdodau lleol gynnwys y cynllun rhyddhad trosiannol yn eu prosesau bilio.

Atodiad - Cyfrifiad Rhyddhad Trosiannol Enghreifftiol

Mae enghraifft wedi'i chyfrifo isod o sut y bydd rhyddhad trosiannol yn gymwys o dan y cynllun arfaethedig. Mae'r enghraifft yn defnyddio trethdalwr sy'n gymwys am SBRR rhannol cyn yr ymarfer ailbrisio yn 2017.

(a)	Gwerth ardrethol ar 31 Mawrth 2017 ("A")	£8,000	Cymwys am SBRR rhannol
(b)	Atebolrwydd sylfaenol ("BL")	£1,296	$E = 3$, wedi'i gyfrifo gan ddefnyddio $(A \times B) / E$
(c)	Gwerth ardrethol ar 1 Ebrill 2017 ("A")	£14,000	Ddim yn gymwys am SBRR
(d)	Swm trethadwy tybiannol ("NCA")	£6,804	$A \times B$
(e)	Cynnydd yn y swm trethadwy yn sgil yr ailbrisio	£5,508	$NCA - BL$
(f)	Rhyddhad trosiannol ar gyfer 2017-18 ("TR Blwyddyn 1")	£4,131	75% o'r cynnydd yn y swm trethadwy yn (e)
(g)	Swm trethadwy ar gyfer 2017-18	£2,673	$NCA - TR$ Blwyddyn 1
(h)	Gostyngiad yn y swm trethadwy ar gyfer 2018-19 ("TR Blwyddyn 2")	£2,754	50% o'r cynnydd yn y swm trethadwy yn (e)
(i)	Swm trethadwy ar gyfer 2018-19	£4,050	$NCA - TR$ Blwyddyn 2
(j)	Gostyngiad yn y swm trethadwy ar gyfer 2019-20 ("TR Blwyddyn 3")	£1,377	25% o'r cynnydd yn y swm trethadwy yn (e)
(k)	Swm trethadwy ar gyfer 2019-20	£5,427	$NCA - TR$ Blwyddyn 3
(l)	Swm trethadwy ar gyfer 2020-21	£6,804	NCA

* At ddibenion y tabl uchod:

- B yw'r lluosydd (yn defnyddio lluosydd 2016-17)
- E yw'r ffigur a gyfrifwyd at ddibenion Gorchymyn SBRR 2015